



newid defnydd, rhai hysbysebion, a rhai gweithiau i goed a warchodir. Mae'n dilyn felly bod y gweithiau hyn o bosibl wedi'u gwneud heb yn wybod i chi nac i'r Awdurdod, ac nad yw hynny o reidrwydd yn golygu eu bod wedi torri rheol gynllunio.

Yn yr un modd mae rhai gweithgareddau neu weithiau mor fach o ran natur fel nad ydynt hyd yn oed yn dod o dan reolaeth y ddeddfwriaeth gynllunio. Nid yw'r materion hyn ychwaith yn cael eu hystyried yn achos o dorri rheolau cynllunio.

Yn yr achosion hyn rhoddir gwybod i chi nad oes unrhyw reol gynllunio wedi'i thorri a'r rhesymau pam fod yr Awdurdod wedi dod i'r casgliad hwn.

Beth sy'n digwydd os oes achos o dorri rheol gynllunio?

Os oes achos o dorri rheol gynllunio bydd y person sy'n gyfrifol am y torri rheol yn cael cyfle i ddatrys y mater yn wirfoddol. Gellir ceisio gwneud hyn drwy'r dulliau canlynol:

1. Gwaredu'r achos o dorri rheol neu ddot â'r gweithgaredd i ben. Yn yr achosion hyn rhoddir gwybod i chi bod yr achos wedi'i gau.
2. Cyflwyno cais am ganiatâd ôl-weithredol mewn ymdrech i wneud iawn am y rheol a dorrwyd. Os yw eich cyfeiriad post gennym, byddwn yn rhoi gwybod i chi os cyflwynir cais, a rhoi cyfle i chi wneud sylwadau.
3. Cyflwyno cais mewn ymdrech i brofi bod yr achos o dorri rheol yn gyfreithlon. Mae'r trydydd opsiwn hwn ond ar gael ar gyfer rhai achosion o dorri rheol gynllunio.

Beth sy'n digwydd os yw'r person sy'n gyfrifol yn gwneud dim?

Os yw'r person sy'n gyfrifol am dorri rheol gynllunio yn

gwneud dim i ddatrys y mater yn wirfoddol, rhaid i'r Awdurdod ystyried ei opsiynau.


Dylid nodi yn y fan hon nad yw gorfodaeth mewn achos o dorri rheolau cynllunio yn swyddogaeth orfodol yr Awdurdod. Os yw datblygiad heb ganiatâd yn dderbyniol o ran cynllunio, h.y. bod y datblygiad yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol, nad oes unrhyw niwed wedi'i achosi, ac nad oes angen rheoli'r gweithgaredd drwy osod amod cynllunio, yna mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn awgrymu na ddylai'r Awdurdod gymryd camau gorfodi ffrifol.

Gall torri rheol gynllunio fod yn dderbyniol o ran cynllunio, ond bod angen rheoli rhai elfennau o'r datblygiad, neu gellir ystyried bod torri rheol yn gwbl annerbyniol a rhaid ei waredu yn ei gyfanrwydd. Yn yr amgylchiadau hyn gofynnir am awdurdod i gyflwyno'r Hysbysiad Gorfodi priodol, yn dibynnu ar y math o reol a dorrwyd.

■ Mae'r daflen hon yn ddogfen atodol i'r *'Polisi Gorfodi a Chydymffurfio â Rheolau Cynllunio'* a fabwysiadwyd ar yr 22ain o Fehefin 2011 sy'n disgrifio polisiau a gweithdrefnau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) o ran ymchwilio i'r rheolau cynllunio a gorfodi cydymffurfio â'r rheolau hynny. Gellir cael golwg ar y ddogfen hon ar-lein ar www.pembrokeshirecoast.org.uk.

Am gyngor a gwybodaeth cyffredinol cysylltwch ag:

Y Tim Gorfodaeth Cynllunio
 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
 Parc Llanion
 Doc Penfro
 Sir Benfro
 SA72 6DY
 Rhif ffôn: 0845 345 7275
 Ffacs: 01646 689076
 E-bost: DC@pembrokeshirecoast.org.uk
 Gwefan: www.arfordirpenfro.org.uk



Clawr: Aberiddi • Tenby © Visit Wales crown copyright 2012

Gorfodaeth Cynllunio

ym a

Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Canllaw i'r Cyhoedd



Parc Cenedlaethol
 Arfordir Penfro
 Pembrokeshire Coast
 National Park



Beth yw Gorfodaeth Cynllunio?

Torri rheolau cynllunio yw gwneud gwaith datblygu neu waith arall heb ganiatâd na chydsyniad yr Awdurdod. Ymhlith yr achosion o dorri rheolau cynllunio y mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ymdrin â hwy mae'r canlynol:

- Codi adeiladau, estyniadau neu gwneud addasiadau i adeiladau.
- Newid defnydd perthnasol y tir neu adeiladau.
- Torri amod o roddwyd ar ganiatâd cynllunio.
- Methu â chydymffurfio â'r cynlluniau a gymeradwywyd fel rhan o ganiatâd cynllunio.
- Hysbysebion.
- Gwaith i wrychoedd neu goed a warchodir neu eu gwaredu.
- Gwaith ar adeilad rhestredig.
- Tir ac adeilad anniben

Proses yw gorfodaeth cynllunio o glustnodi, ymchwilio ac ystyried achosion o dorri rheolau cynllunio, ceisio dod i benderfyniad ar yr achos hwnnw o dorri rheolau cynllunio a'r posibilrwydd o gyflwyno Hysbysiadau Gorfodi ffurfiol o dan y ddeddfwriaeth gynllunio berthnasol. Dilytir y camau hyn gyda'r nod o gael gwared ar y niwed a achosir gan y torri rheolau er budd y cyhoedd.

Er bod torri rheolau cynllunio yn weithred heb ganiatâd, mae'n werth nodi nad yw'r mwyafrif o'r achosion yn weithred droseddol (er bod atebolrwydd troseddol yn codi yn y pen draw os cyflwynir hysbysiad ffurfiol). Yr eithriadau i hyn yw hysbysebion, gwaith i goed a gwrychoedd o bwys a warchodir, a gwaith ar adeiladau rhestredig. Hefyd mae'n bwysig nodi bod gorfodi rheolau cynllunio yn swyddogaeth ddewisol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. Bydd y Parc Cenedlaethol fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol, bob amser yn ystyried dulliau o weithredu ym mhob achos o dorri rheolau cynllunio.

Sut ellir cyflwyno cwyn?

Os ydych yn amau bod rheolau cynllunio wedi'u torri dylech:

- Lenwi Ffurflen yr Awdurdod ar Gwyno ynglŷn â Gorfodaeth Cynllunio; neu
- Anfon llythyr neu e-bost yn amlinellu'ch pryderon i'r cyfeiriad a nodir yn y daflen hon; neu
- Gysylltu â'r Tîm Gorfodaeth dros y ffôn

Pa wybodaeth y bydd yr Awdurdod ei hangen?

Pan fyddwch yn cysylltu gyntaf â'r Awdurdod, dylech gyflwyno gymaint o wybodaeth â phosibl am y safle a'ch pryderon. Mae'r Ffurflen Gwyno ynglŷn â Gorfodaeth Cynllunio yn nodi'r lleiaf o wybodaeth sy'n ofynnol i'w chyflwyno. Gellir cysylltu yn y lle cyntaf dros y ffôn, ond bydd yr Awdurdod yn eich annog i lenwi'r Ffurflen i gynorthwyo'r swyddogion a sicrhau bod yr achos yn mynd rhagddo. Bydd yr Awdurdod yn gwneud popeth yn ei allu i gadw'ch gwybodaeth yn gyfrinachol, ond mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r wybodaeth os yw'r mater yn mynd i apêl neu gerbron achos llys.

Beth sy'n digwydd ar ôl i mi wneud cwyn?

Agorir ffeil Gorfodaeth ynglŷn â'r safle sy'n destun cwyn, a neilltuir y ffeil hon i swyddog o'r Tîm Gorfodaeth. Yn y llythyr neu e-bost a anfonir atoch i gydnabod derbyn eich cwyn, nodir enw'r swyddog sy'n delio â'ch ymholiad a'r flaenoriaeth a roddir i'r achos. Bydd y flaenoriaeth hon yn dibynnu ar y math honedig o dorri rheolau a'r niwed posibl a achosir i amgylchedd neu amwynder lleol yr ardal. Mae achosion newydd o orfodaeth fel arfer yn cael eu blaenoriaethu mewn tair ffordd:

1. **Blaenoriaeth Uchel (Coch):** Gwneir ymweliad safle ac ymchwiliad cychwynnol cyn pen un diwrnod gwaith o dderbyn y gŵyn.

2. **Blaenoriaeth Ganolig (Melyn):** Gwneir ymweliad safle ac ymchwiliad cychwynnol cyn pen saith diwrnod gwaith o dderbyn y gŵyn.
3. **Trydedd Flaenoriaeth (Gwyrdd):** Gwneir ymweliad safle ac ymchwiliad cychwynnol cyn pen pymtheg diwrnod gwaith o dderbyn y gŵyn.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Unwaith yr ymwelir â'r safle a bod y ffeithiau'n glir, mae tri canlyniad posibl:

1. Nad oes rheol gynllunio wedi'i thorri.
2. Bod rheol gynllunio wedi'i thorri, ond nad yw'n fuddiol i ddilyn y mater ymhellach.
3. Bod rheol gynllunio wedi'i thorri a bod angen cymryd camau pellach.

Bydd yr Awdurdod yn cydnabod derbyn eich cwyn/sylwadau cyn pen pum diwrnod gwaith ac yn gwneud pob ymdrech i roi gwybod i chi am y camau a gymerwyd ar yr adegau isod:

- Asesiad cychwynnol o'r broblem
- Os cyflwynir hysbysiad ffurfiol
- Cyflwyno apêl
- Achos llys ffurfiol
- Cau'r ymchwiliad yn derfynol

Os hoffech gael y diweddaraf ynglŷn â'r achos dylech gysylltu â'r Swyddog Gorfodaeth yn uniongyrchol.

Beth sy'n digwydd os nad oes achos o dorri rheol cynllunio?

Mae deddfwriaeth gynllunio yn rheoli'r gweithgareddau a restrir yn y daflen hon, ond hefyd mae'r un deddfwriaeth yn nodi bod rhai gweithiau yn cael eu 'caniatáu' neu wedi'u 'heithrio' rhag bod angen caniatâd arnynt gan yr Awdurdod. Mae'r rhain yn cynnwys mân estyniadau i dai, rhai mathau o